LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



# PWY YDYM NI

**Uniondeb ~ Person ganolog ~ Cydweithio**

Llais yw'r **corff cenedlaethol, annibynnol** a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi llais cryfach i bobl Cymru yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae gennym dair prif rôl:

**01:** Ymgysylltu â chi a gwrando arnoch am eich profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol. Efallai y byddwch chi'n ein gweld ni allan yn y gymuned, mewn digwyddiadau, mewn sesiynau galw heibio – rydyn ni'n ceisio cwrdd â chi yn y lleoedd sy'n bwysig i roi cyfle i chi ddweud eich dweud.

**02:** Cynrychioli eich barn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid iddyn nhw nawr roi gwybod i ni beth maen nhw'n bwriadu ei wneud â'ch adborth. Os na allant weithredu arno, mae angen iddynt ddweud wrthym pam.

**03:** Darparu gwasanaeth eiriolaeth cwynion ym mhob rhan o Gymru ar gyfer cwynion am iechyd a gofal cymdeithasol.

# Ydych chi'n defnyddio gwasanaethau'r GIG neu ofal cymdeithasol yng Nghymru?

Helpwch ni i lunio'r dyfodol drwy roi gwybod i ni beth yw eich barn amdanynt.

**Mae eich llais yn fwy pwerus nag erioed o'r blaen**



# Dweud eich dweud

Rydym am glywed gan bobl yn holl gymunedau amrywiol Cymru, yn enwedig y rhai nad yw eu lleisiau bob amser yn cael eu clywed.



Mae llawer o ffyrdd i ddweud eich dweud:

- **dywedwch eich stori wrthym – mae ffurflen adborth cyffredinol 5 munud ar ein gwefan**
- **cael cymorth i wneud cwyn**
- **mynnwch gyngor neu wybodaeth am eich gwasanaethau lleol a sut i gael gafael arnynt**

- **mynychu un o'n digwyddiadau lleol rheolaidd**

- **gallwn ymweld â chi ble bynnag yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth iechyd neu ofal cymdeithasol**

I gael gwybod mwy am Llais a sut y gallwch chi ymwneud â gwella iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gyda ni, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol neu ewch i

**www.llaiscymru.org**



## Byddwch yn rhan o rywbeth pwysig

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn Braille, Hawdd ei Ddarllen neu mewn iaith arall, cysylltwch â'ch tîm Llais lleol

# EICH TÎM LLAIS LLEOL

**Caerdydd a Bro Morgannwg**
Yn cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg.
**Ffôn:** 029 2375 0112
**E-bost:** ymholiadaucaerdyddarfro@llaiscymru.org

**Cwm Taf Morgannwg**
Yn cwmpasu Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.
**Ffôn:** 01443 405830
**E-bost:** ymholiadaucwmtafmorgannwg@llaiscymru.org

**Gwent**
Yn cwmpasu Casnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen.
**Ffôn:** 01633 838516
**E-bost:** ymholiadaugwent@llaiscymru.org

**Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe**
Yn cwmpasu Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.
**Ffôn:** 01639 683490
**E-bost:** ymholiadau.cnptacabertawe@llaiscymru.org

**Gogledd Cymru**
Yn cwmpasu Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam, Conwy, Ynys Môn a Gwynedd.
**Ffôn:**01978 356178/01248 679284
**E-bost:** ymholiadaugogleddcymru@llaiscymru.org

**Powys**
Yn cwmpasu Sir Drefaldwyn, Brycheiniog a Sir Faesyfed.
**Ffôn**: 01874 624206 /1686 627632
**E-bost:** ymholiadaupowys@llaiscymru.org

**Gorllewin Cymru**
Yn cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.
**Ffôn**: 01646 697610
**E-bost:** ymholiadaugorllewincymru@llaiscymru.org

Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ymateb i chi yn Gymraeg, ac ni fydd hyn yn arwain at oedi.

LLAIS
Eich llais chi mewn iechyd a gofal | Your voice in health and social care